

artesm¹⁰undi

#5

Steffan Gwynn

Penillion Rhyddid

In *Verses of Filth*, a disoriented Mesoamerican deity has become a scavenger digging in the wasted land in search of residues of fragmented bodies and cultural debris. Together with a gang of vultures, she sparks a residual insurrection of a brigade of undomesticated arms and underworld creatures who reclaim to become undead in search for touch and pleasure.

[disgrifiad o ffilm gan Naomi Rincón Gallardo yn Artes Mundi 10](#)
[a description of one of Naomi Rincón Gallardo's films in Artes Mundi 10](#)

Dwi'n glust, yn glust sydd wedi ei thiwnio i gryniadau'r nos ac sy'n gwrando ar anrhefn y symudiadau, y dorf sydd yn symud fel un don, un cefnfor, dwi'n glust, yn glust â chanddi ddwyllaw gofalus, yn berson â chanddo lygaid i fedru gweld, dim ond hynny, yn ddim byd mwy na hynny, yma, fan hyn, yn y perfeddion, heno, a dwi'n boenus ymwybodol ohonof fi fy hun, o fy nghorff, fy nghlyw, yn ymwybodol o'm bysedd sy'n crwydro dros lythrennau gloyw'r cyfrifiadur o'm blaen, yn ymwybodol o'r llygaid sy'n fy ngwylio o ganol y dorf, a heno, yn fwy nag unrhyw heno arall a fu erioed, dwi'n dyheu am gael camu o'r llwyfan-dros-dro a diflannu yng ngwres y cyrff sy'n symud fel un ton, yn gerrynt byw o fy mlaen, yn dyheu am gael suddo i ganol y cyfan fel na fydda i'n gweld y byd hwn, na gwrando na sylweddoli, dim ond teimlo fy ffordd i dir breuddwydion, at rhyw fan sydd y tu hwnt i ni'n dau, yn rhywle a alwn weithiau yn ryddid, ond mynnu hoelio fy sylw a wna rhuthr y rhythmiau wrth iddyn nhw dreiglo'r oriau ar hyd hen wynebau'r chwarel, ac am eiliad dwi'n ceisio dianc y tu hwnt i'r ceudwll a'r llethrau, y tu draw i'r coed â'u dail blinedig-diwedd haf, i ganol y sêr a'u goleuni llonydd, ffrwydrol, ceisio dianc i'w goleuni a chofio'r sêr a grogai uwch ein pennau y tro

cyntaf i ni gwrdd, y baneri â'u patrymau o sêr yn dawnsio ar dafodau tân, fel ta'en nhw'n darogan y damchwa fawr oedd eto i ddod i'r wlad hon, i Gatalonia, a thrwy'r gawod o sêr, heno, mae'n debyg, fe deimlwn y glaw, yn cyrraedd fel sain egwan i gychwyn yng nghrychau'r dail, yn curo'n drymach wedyn ar yr adlen a gaiff ei thynnu'n frysiog dros y system sain, a bydd tawelwch am rai eiliadau wrth i bobl brysuero yn y tywyllwch i ddod o hyd i gysgod i'r offer trydan, heno, ac yn y distawrwydd hwnnw, pan fydd pall y gerddoriaeth ac ansicrwydd y dorf yn creu eiliad o wacter, dwi'n gwybod mai chwilio am dy wyneb di y byddaf i wrth rythu o'r llwyfan at y dorf ddisglair, ddisgwylgar, edrych am dy wyneb, a dychmygu eto yr eiliadau olaf wrth i oleuadau car lifo drwy'r winsgrîn a lapio amdanat cyn i'r nos dy hawlio, ac yn meddwl a wyt ti'n cofio ni'n cwrdd, â finnau mor betrus, fel petaet ti'n gariad cyntaf, ond i mi roeddet ti yn gariad cyntaf, o fath, nôl yn y dyddiau glas gobeithiol hynny mewn lle a oedd, am un noson, yn gartref, yn gyfanrwydd gwynfydol, a heno, yn y chwarel, mi welaf gysgodion dy symudiadau ar hyd y graig, dwi'n craffu eto er mwyn dy leoli, er mwyn dy gael di nôl yma gyda mi, er mwyn dy dynnu'n nes, cyn y daw bloedd i amharu ar lif atgofion,

bloedd i groesawu'r geifr sydd yn symud ymhlith y dorf,
hen geidwaid corniog y chwareli, ac yn cysgodi o dan yr
adlen a godwyd i warchod y system sain, mae'r
gerddoriaeth yn ail-gychwyn ac mae curiad trwm y bas
yn tywys pawb nôl i drefn, tra fy mod innau'n dyheu am
gael dychwelyd i'r fan lled-rithiol yn fy meddwl lle
dwi'n camu o'r llwyfan pell-yn-ôl ac yn dal dy lygad,

Celt, meddet ti, yn hanner cwestiwn, hanner datganiad,
wedi deall, rhywsut, fy mod yn dod o Gymru, ac
esbonio dy fod ti'n hannu o Cantabria, a dy fod tithau'n
Gelt hefyd felly, a dy fod ti wedi bod yr wythnos gynt yn
protestio yn erbyn ymddygiad yr heddlu yn strydoedd
Barcelona, dy gartref, ac fe euthum i ddawnsio, a
dawnsio nes i'r freuddwyd o annibynniaeth gilio,

A heno, wrth i fi gamu o'r llwyfan hwn ac ymuno efo'r
dorf, dwi'n ailadrodd i mi fy hun y tipyn Sbaeneg dwi'n
ei gofio o eiriau'r crwner mewn erthygl yr anfonodd dy
chwaer ataf i wedi'r ddamwain, maen nhw'n toddi'n un
â'r nos, yn agennau'r graig, yng ngwythiennau'r llechi,
ac wrth i mi geisio anghofio, am heno, a symud efo'r
dorf yn un don ddi-hid o ryddid

Rwyt ti'n fy nhynnu yn nes, yn nes atat

Ti, a ddysgodd fi i wenu'n lletach trwy fy swildod

Drwyddot ti y gofynnais

A disgwyliaf drwy sibrydion y nos am dy ateb

Gwrandda

Hon yw'r llinell a dorrwyd gan gŷn yr eiliad mewn
gwendid cof

Llinell sydd yn llacio ar bwysedd y blynyddoedd ac yn
lafn trwy hen welau môr

Steffan Gwynn is a landscape architect who frequently writes on related topics. Recent work has been published in *O'r Pedwar Gwynt* and *The Ethnobotanical Assembly*. He is originally from Uwch Gwyrfai, and will this year be running a deep mapping creative-engagement project with Yr Orsaf in Dyffryn Nantlle, which will explore that community's relationship to its natural environment.

Steffan Gwynn's 'Penillion Rhyddid' is the fifth in a [series of eight newly commissioned texts](#) developed alongside [Artes Mundi 10](#), which is showing in Cardiff, Swansea, Newtown and Llandudno between October 2023 and February 2024.

Pensaer tirwedd yw **Steffan Gwynn** ac mae'n ysgrifennu ar faterion cysylltiedig. Cyhoeddwyd ei waith yn fwyaf diweddar yn *O'r Pedwar Gwynt* a *The Ethnobotanical Assembly*. Yn frodor o Uwch Gwyrfai, eleni mi fydd yn gyfrifol am redeg prosiect mapio dwfn gyda chanolfan Yr Orsaf yn Nyffryn Nantlle, a fydd yn archwilio'r berthynas rhwng y gymuned a'i hamgylchfyd leol trwy ddulliau ymgysylltu creadigol.

'Penillion Rhyddid' gan **Steffan Gwynn** yw'r pumed yn ein [cyfres o 8 comisiwn sgwennu gwreiddiol](#) wedi'u datblygu yn rhan o [Artes Mundi 10](#), sydd ar ddangos yn Abertawe, Caerdydd, Drenewydd a Llandudno rhwng Hydref 2023 a Chwefror 2024.